# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| **ADRAN:** | Ysgol Gyfun Cynffig |
| **SWYDD:** | Cynorthwyydd Neuadd Chwaraeon Llanw |
| **GRADD Y SWYDD:** | Gradd 3 |
| **YN ATEBOL I'R:** | Pennaeth |

---

**DIBEN Y SWYDD:**
O dan oruchwyliaeth y Rheolwr Safle neu'r Rheolwr Llinell, bod yn gyfrifol am oruchwylio'r cyfleusterau chwaraeon yn yr ysgol ar gyfer llogi preifat, diogelwch y safle a sicrhau amgylchedd diogel

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Cynnal dyletswyddau deiliaid allweddi, cloi a datgloi adeiladau'r ysgol pan fyddant yn cael eu defnyddio ar ôl y diwrnod ysgol, ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau ysgol.
- Cynnal archwiliadau rheolaidd o'r safle a rhoi gwybod am unrhyw broblemau neu uwchgyfeirio'r problemau hynny i'r person priodol.
- Gwirio'r safle a'r cyfleusterau ar gyfer glendid.
- Cadw cofnodion sylfaenol e.e. archebion.
- Goruchwylio ymwelwyr pan fyddant ar y safle i sicrhau ymddygiad cywir ac amgylchedd diogel.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**GWIRIAD COFNODION TROSEDDOL**

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodi troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

## Manyleb y Person

## Cynorthwyydd Neuadd Chwaraeon Llanw

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol (Ydy)

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Safon dda o addysg neu'n gallu dangos cymhwysedd drwy brofiad. | Ydy | Cyflwyno tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Gwybodaeth am ofynion iechyd a diogelwch. | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, geirdaon a phroses ddethol. |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Yn hyblyg ac yn gallu ymateb i amgylchiadau a gofynion sy'n newid.<br>• Gallu gweithio fel rhan o dîm.<br>• Gallu cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol<br>• Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Ydy | Ffurflen gais, cyfweliad a phroses ddethol. |